

Panel

Ymgynghorol

Pobl Ifanc:

Ymateb i'r

Ymgynghoriad

ACRh



Dyddiad: Mehefin 2021

Pwnc: Y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE)

Gwybodaeth Gefndir

Mae Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd Plant yn cynnwys 47 o bobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed. Pwrpas y panel ymgynghorol yw gweithredu fel ffrind beirniadol sy'n sicrhau bod gwaith y Comisiynydd Plant yn cael ei dywys gan farn plant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru.

Yn sgîl marwolaeth Sarah Everard, gofynnodd un o Gadeiryddion y panel am ychwanegu trafodaeth ar aflonyddu'n rhywiol ar fenywod at agenda cyfarfod, a hynny yng nghyd-destun ehangach sut mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) yn cael ei dysgu mewn ysgolion. Roedd aelod arall o'r panel wedi trefnu digwyddiad 'Hawlio'r Strydoedd yn ôl' (*Reclaim the Streets*) yn ei hardal leol tua'r un adeg. Amlygodd y drafodaeth pa mor bwysig oedd y pwnc i ni, ac yn benodol, i ba raddau roedden ni'n teimlo nad yw RSE wedi mynd yn ddigon pell yn y gorffennol.

Gwahoddwyd y Comisiynydd Plant i roi anerchiad allweddol yn y gynhadledd 'TRAWSFFURFIO ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB', oedd yn cael ei chynnal gan Brifysgol Caerdydd, a gofynnodd i'r ddau berson ifanc y cyfeiriwyd atynt uchod ymuno â hi i gyflwyno barn y panel ymgynghorol.

Tua'r un adeg buon ni, is-grŵp o dri aelod o'r panel ymgynghorol, yn cwrdd ag aelodau o staff CPC i drafod y canllawiau RSE oedd yn destun ymgynghori. Fe ddefnyddion ni ein barn ein hunain, ond hefyd nodiadau o'r drafodaeth flaenorol gyda'r panel ymgynghorol ehangach i lywio'r ymateb i'r ymgynghoriad. Rydyn ni wedi defnyddio cwestiynau a osodwyd gan CPC yn benawdau ar gyfer yr ymateb i'r ymgynghoriad, ac rydyn ni'n cynnwys ein barn isod.

I ba raddau mae'r ddogfen ymgynghori yn eich cefnogi i leisio barn? Beth arall gallech chi fod angen?

'Rydw i wedi arfer tipyn â darllen ymgynghoriadau, ond rwy'n meddwl bod gormod o eiriau – dyw e ddim yn hawdd ei ddarllen.'

Fe wnaethon ni gytuno y byddai'r ddogfen ymgynghori yn iawn i weithiwr proffesiynol ei darllen, h.y. athro, ond nad oedd yn addas i bobl ifanc. Y prif feirniadaeth yw hyd y ddogfen, a hefyd y ffaith bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn anodd i bobl ifanc ei darllen a'i deall.

Roedden ni'n teimlo na fydden ni wedi gwybod bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cwricwlwm RSE oni bai bod staff Comisiynydd Plant Cymru wedi gofyn a fyddai gennym ni ddiddordeb mewn cyflwyno ein hymateb ein hunain. Er mwyn gwybod am yr ymgynghoriad, byddai pobl ifanc wedi gorfod mynd ati'n benodol i edrych a chwilio amdano.

Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y cwricwlwm trwy ysgolion ac annog athrawon naill ai i'w rannu gyda myfyrwyr neu gynnal yr ymgynghoriad yn y dosbarth.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Beth yw prif gryfderau'r canllawiau?

Rydyn ni'n falch o weld bod y cwricwlwm yn destun ymgynghori, gan ein bod ni ddim yn teimlo bod y cwricwlwm RSE presennol yn mynd yn ddigon pell, a'i fod yn aml yn cael ei anghofio neu ei ddiystyru. Mae yna sawl nodwedd positif y gwnaethon ni eu nodi yn y ddogfen ymgynghori, ac rydyn ni'n teimlo ei fod yn brofiad newydd i bobl ifanc sydd heb wneud RSE o'r blaen.

Rydyn ni'n teimlo y bydd llawer o egwyddorion trosfwaol y canllawiau yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc. Er enghraifft, rydyn ni'n gwerthfawrogi'r gwahaniaethu rhwng 'ymwybyddiaeth' yn achos grwpiau iau, a 'dealltwriaeth' yn achos grwpiau hŷn, o ran ffocws yr addysgu am wahanol fathau o berthnasod teuluol. Mae plant iau yn llai tebygol o ddeall, ond byddan nhw'n datblygu hynny wrth dyfu'n hŷn.

Yn yr un modd, rydyn ni'n cytuno'n gryf â'r canllawiau y dylai RSE ddechrau'n gynnar. Trwy ddysgu'r pwnc o 3 oed, byddech chi'n gobeithio y byddai'r myfyrwyr yn deall llawer mwy erbyn cyrraedd 16 oed, gan y byddan nhw'n gyfarwydd â dysgu am RSE.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod y canllawiau ddim yn camwahaniaethu yn erbyn neb – does dim ots beth yw eich rhywedd neu eich rhywioldeb – mae pawb yn cael eu parchu. Rydyn ni hefyd yn falch bod y canllawiau'n sôn yn eglur am bethau, heb osgoi dysgu am drais ar sail rhywedd neu ryw, a materion eraill. Maen nhw'n amlygu'r angen am addysgu ynghylch agweddau negyddol RSE yn ogystal â'r rhai cadarnhaol.

Ymhellach, o ran cynnwys y canllawiau, roedden ni'n falch o weld bod Llinyn 2 yn annog dysgu terminoleg gywir am rannau'r corff i blant 3 i 7 oed. Rydyn ni'n credu y dylai pob rhan o'r corff gael eu henwi. Er enghraifft, mae pawb ohonon ni'n gwybod beth yw'r enw ar fraich, felly pam na ddylen ni ddefnyddio'r termau cywir ar gyfer pob rhan o'r corff?

Dylai dysgu am ddelwedd y corff a chysyniadau'r 'hunan' a 'hunaniaeth' aros yn y canllawiau. Mae hynny'n rhoi dealltwriaeth o bwysigrwydd cysylltiadau ag eraill i bobl ifanc, a sut mae'r cysylltiadau hynny'n cyfrannu at ffurfio ein hunaniaeth.

Mae'r canllawiau'n sôn am ymddygiad ar-lein a sut mae cadw'n ddiogel yn fyr iawn yn Llinyn 3. Rydyn ni'n teimlo bod hyn yn bwysig oherwydd, er bod llawer yn digwydd 'mewn bywyd go iawn', mae llawer yn digwydd ar-lein hefyd, ac mae angen i bobl ifanc wybod am hynny. Mae angen i ni sicrhau bod integreiddio rhwng y pethau sy'n digwydd 'mewn bywyd go iawn' ac ar-lein.

Oes yna unrhyw beth ar goll o'r canllawiau? Os oes, beth?

Mae yna rai nodweddion allweddol rydyn ni'n credu sydd heb gael eu cynnwys.

Er enghraifft, mae'r canllawiau'n cynnwys gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gwybod sut mae chwilio am gefnogaeth. Ond dyw'r canllawiau ddim yn argymhell nac yn cynghori *ble* mae chwilio am y gefnogaeth honno. Byddai syniadau gwahanol athrawon yn amrywio o ran pwy allai helpu, felly mae angen argymhell ffynonellau cefnogaeth priodol.

Mae'r canllawiau hefyd yn cychwyn trwy ddatgan y dylai fod dull ysgol gyfan o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE), ond heb gynnwys manylion am beth yw hynny na sut mae gwneud hynny. Rydyn ni'n pryderu ynghylch sut bydd gwahanol ysgolion yn dehongli hyn a pha mor ddigonol fyddai eu dehongliad o ddull gweithredu ysgol gyfan yn ymarferol.

Yn yr un modd, does dim oriau dysgu yn cael eu hargymhell yn y canllawiau. Mae'n bwysig cynnwys hynny, gan y gallai rhai ysgolion dreulio hanner awr ar wers Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, tra bod eraill yn gwneud 3 awr yr wythnos. Dylid cynnwys isafswm amser i'w dreulio ar RSE yn y canllawiau, fel bod disgwyliadau pendant.

Rydyn ni hefyd yn teimlo y gallai'r canllawiau fod yn gryfach ynghylch iechyd meddwl. Mae'r ddogfen yn sôn am lesiant yn fyr, ond gallai ddangos yn gliriach bod dysgu am eich iechyd meddwl a gofalu amdano yn rhan o ofalu am eich corff a deall eich hunan.

Gallai'r canllawiau fod yn gryfach hefyd wrth ddatgan pwysigrwydd dysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ddi-duedd. Rydyn ni'n pryderu y gallai fod gan rai athrawon farn neu gred benodol, ac er na fyddan nhw o bosib yn gwthio'u barn ar ddisgyblion, gallai beth maen nhw'n wir yn ei feddwl frigo i'r wyneb.

Yn olaf, rydyn ni'n teimlo y gallai'r canllawiau fod yn gliriach yn Llinyn 2, wrth drafod rheoli heintiau gyda'r grŵp 3-7 oed. Ddylai hyn ddim cael ei ddysgu mewn ffordd a allai godi ofn ar blant 3 oed, a gadael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl.

Sut arall gallai'r canllawiau gael eu gwella?

'Fe gawson ni newid i'r cwricwlwm ar ôl i'r myfyrwyr gwyno. Fe wnaethon nhw'n dysgu ni am gydsyniad am y tro cyntaf yr wythnos ddwetha. Fe wnaethon nhw'n dysgu ni, ond chawson ni ddim cyfle i drafod y peth wedyn.'

Dylai fod ffocws ar ddysgu seiliedig ar drafodaeth, a dyw'r canllawiau ddim yn rhoi cymaint o bwysau ar hynny ag y dylen nhw. Mae'n bwysig gwneud synnwyr o'r hyn sy'n cael ei ddysgu, a gwneud yn siŵr ei fod o fudd i bawb.

Dylai'r canllawiau hefyd bwysleisio pwysigrwydd dysgu gan gyfoedion a gweithredu dan arweiniad cyfoedion. Os caiff syniadau eu mynegi gan gyfoedion, mae pobl ifanc yn fwy tebygol o'u cofio nag os bydd athro'n eu cyflwyno. Mae mwy o barch i syniad un o'u cyfoedion na syniad gan athro.

'Mae'n berthynas dwy ran'

Dylai RSE gael ei dysgu i bawb gyda'i gilydd, heb wahanu'r dosbarthiadau yn ôl rhyw. Rydyn ni'n teimlo, er bod gwahaniaethau rhwng y rhywiau, bod dwy ran i bob perthynas, a bod angen i bobl ifanc ddeall sut mae'r rhywiau'n ymwneud â'i gilydd. Rydyn ni hefyd yn teimlo, os yw dosbarthiadau'n cael eu gwahanu, fod hynny ddim yn helpu pobl ifanc LHDTTC+ a rhai â rhywedd arall, gan na fyddan nhw o reidrwydd yn cael yr un profiadau, e.e. efallai na fyddan nhw'n ymwneud â chydberthynas wahanrywiol. Ar ben hynny, allwch chi ddim parchu taith pobl eraill heb wybod am eu bywydau a'u profiadau. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn aml yn cael ei chysylltu â diffyg aeddfedrwydd ymhlith bechgyn, ac rydyn ni'n teimlo bod hynny'n digwydd oherwydd eu bod nhw ddim yn dysgu am brofiadau merched, ac felly ddim yn eu deall. Bydd dysgu ar y cyd yn helpu i greu cydbwysedd rhwng aeddfedrwydd ac anaeddfedrwydd.

Yn olaf, dylai fod mwy o uchelgais yn y llinynnau ar gyfer yr ystod oed hŷn. Rhowch lefel uchel o ddisgwyliadau i bobl ifanc yn y ddogfen – rydyn ni'n gallu dysgu a deall pethau cymhleth, ac mae angen i hynny gael ei gyfleu yn y canllawiau.

Pa mor gynhwysol yw'r canllawiau o bob plentyn a pherson ifanc?

Rydyn ni'n falch bod hawliau LHDTTC+ yn cael lle yn y canllaw.

Er bod y canllawiau'n sôn bod rhaid peidio â chamwahaniaethu yn erbyn disgyblion crefyddol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dydyn nhw ddim yn sôn am grefydd nac yn ystyried y berthynas rhwng gwerthoedd crefyddol ac RSE, e.e. dim rhyw cyn priodi yn elfennau'r cynnwys. Rydyn ni'n teimlo ei fod yn bwysig dysgu bod gan bobl farn wahanol a'u bod nhw'n credu pethau gwahanol ynghylch RSE.

Yn yr un modd, dyw'r canllawiau ddim yn sôn llawer am bobl ag anabledau, ac efallai bod hynny wedi cael ei anghofio. Os nad yw pobl ifanc yn gallu rhyngweithio â phobl ag anabled yn rheolaidd, gallai RSE fod yn gyfle da i ddeall profiadau pobl anabl a'r cysylltiad rhwng hynny a delwedd y corff, ymreolaeth y corff a hunaniaeth pobl anabl. Mae hynny'n cynnwys y ddealltwriaeth nad dim ond pobl mewn cadair olwyn sydd

ag anabledd, ond bod y term 'anabl' yn gallu cynnwys pobl ifanc ag awtistiaeth ac anableddau dysgu, ymhlith pethau eraill.

Sylwadau eraill

Efallai na fydd y canllawiau yma'n helpu pobl ifanc sydd eisoes yn 14 oed – mewn ffordd maen nhw wedi cael eu colli i'r system yn barod. Os caiff hyn ei roi ar waith yn iawn, ac os bydd yn gweithio'n dda, gallai helpu plant bach sydd heb ddechrau eu haddysg eto.

Byddai llawer mwy o barch i'n gilydd heddiw petai pob person ifanc wedi bod yn dysgu RSE ers pan oedden nhw'n 3 oed, ac rydyn ni'n meddwl na fydden ni'n delio â llawer o'r problemau rydyn ni'n eu hwynebu yn yr ysgol ar hyn o bryd. Bydd y trafodaethau ymhlith plant 10 ac 13 oed hefyd yn llawer mwy gwybodus, diddorol ac yn cael eu trin o ddifri, os yw plant a phobl ifanc wedi arfer dysgu am RSE ers pan oedden nhw'n ifanc.

Os yw RSE i fod yn effeithiol, rydyn ni'n teimlo bod angen i rieni, athrawon, myfyrwyr a'r ysgol gyfan ddatblygu'r cynnwys trwy gynllunio ar y cyd, ac mae angen i bawb ohonyn nhw gydweithio i roi'r canllawiau hyn ar waith.

Cyflwynwyd gan:

Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc Comisiynydd Plant Cymru